# JAMES, JAMES ('Iago Emlyn '; 1800 - 1879), gweinidog gyda'r Annibynwyr a bardd

**Enw:** James James
**Ffugenw:** Iago Emlyn
**Dyddiad geni:** 1800
**Dyddiad marw:** 1879
**Priod:** Jane James (née Mince)
**Rhiant:** Mary James
**Rhiant:** David James
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr a bardd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awduron:** Griffith Milwyn Griffiths, Marion Löffler

Ganwyd ym mhlwyf Bettws Ifan, ger Aberteifi ym 1800, yn fab i David a Mary James. Erbyn Tachwedd 1809, bu farw'r rhieni, a gofalwyd amdano gan ei famgu yn Dinas, ger Castellnewydd Emlyn. Bu am rai blynyddoedd yn fasnachwr mewn amryw leoedd, yn eu plith Bryste.

Yn 1840 aeth i goleg diwinyddol Caerfyrddin, a bu'n bugeilio eglwysi yn Llanelli, Caerdydd, Casnewydd, a Portishead. Collodd ei iechyd ac ymneilltuodd i fyw yn Clifton, Bryste, ble, ar 4ydd Mawrth 1844, y priododd Jane Mince yn Eglwys Plwyf Clifton. Yn ôl cyfrifiad 1861 bu'n cadw t llety yn 14 Frederick Place, Clifton, gyda'i wraig, ond ym 1871, dim ond ei wraig a'i chwaer ddi-briod, Maria Mince, recordiwyd o dan y cyfeiriad hwn. Bu farw 5 Ionawr 1879 a chladdwyd ef ym Mryste.

Yr oedd yn ysgolhaig medrus, ac yn fardd o gryn fri. Cyhoeddwyd cyfrol o'i farddoniaeth yn 1848 dan y teitl, *Cyfansoddiadau Buddugol a Cherddi Ereill*, cyfrol arall yn 1863, *Gweithiau Barddonol Iago Emlyn*, a thraethawd, *The Philosophical Construction of Celtic Nomenclature ...* yn 1869.

## Awduron

**Griffith Milwyn Griffiths**

**Marion Löffler**

## Ffynonellau


T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Notable Welshmen (1700–1900)* (1908)

*The Congregational Year Book*, 1880

H. Blackwell, NLW MS 9261A: A Dictionary of Welsh Biography

Gwybodaeth ychwanegol gan Stephen Emlyn-Jones


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: James James

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 63226940

Wikidata: Q3161184

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/



Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu